# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 1

CYNLLUNIO A MABWYSIADU CWRICWLWM

VALID FROM 01/09/2022

*Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir*

### 13 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cwricwlwm (y “cwricwlwm adran 13”) y maent yn ystyried ei fod yn addas i blant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

(2) Rhaid i’r cwricwlwm adran 13 gydymffurfio â’r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/09/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. (See end of Document for details)*

### 14 Adolygu a diwygio cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cadw'r cwricwlwm adran 13 o dan adolygiad, a

(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio ag adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cwricwlwm adran 13 os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cwricwlwm adran 13 hefyd os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r cwricwlwm adran 13, rhaid iddynt gyhoeddi'r cwricwlwm diwygiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

### 15 Mabwysiadu cwricwlwm

(1) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir—

(a) mabwysiadu cwricwlwm i blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer (boed y cwricwlwm adran 13 neu gwricwlwm arall y mae'r darparwr yn ystyried ei fod yn addas), a

(b) cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm mabwysiedig.

(2) Ond ni chaniateir mabwysiadu cwricwlwm o dan yr adran hon oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

### 16 Adolygu a diwygio cwricwlwm

(1) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir—

(a) cadw'r cwricwlwm mabwysiedig o dan adolygiad, a

(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio ag adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

(2) Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b), rhaid i'r darparwr roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu a weithredir gan y darparwr o dan reoliadau a wneir o dan adran 56.

(3) Rhaid i'r darparwr ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig os yw'r darparwr yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/09/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. (See end of Document for details)*

(4) Caiff y darparwr ddiwygio’r cwricwlwm mabwysiedig hefyd os yw’r darparwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

(5) Os yw’r darparwr wedi mabwysiadu’r cwricwlwm adran 13, a bod Gweinidogion Cymru yn diwygio’r cwricwlwm hwnnw o dan adran 14, rhaid i’r darparwr ystyried a yw’n briodol diwygio’r cwricwlwm mabwysiedig o dan is-adran (4) er mwyn adlewyrchu’r diwygiadau a wnaed o dan adran 14.

(6) Os yw’r darparwr yn diwygio’r cwricwlwm mabwysiedig, rhaid i’r darparwr gyhoeddi crynodeb o’r cwricwlwm diwygiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/09/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.